# FAINT MAE GWIRIAD DBS YN EI GOSTIO?

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

Os ydych yn gwneud eich cais DBS mewn cysylltiad â swydd neu rôl wirfoddol o fewn yr Eglwys Bresbyteraidd Cymru/ Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg / Undeb Bedyddwyr Cymru does dim angen talu unrhwy ffi weinyddol ond efallai bydd angen i chi dalu ffi y DBS.

1. **Mae DBS yn costio £49.50 i'r rhai sy'n derbyn taliad neu sy'n cael eu cyflogi (e.e. gweinidogion, staff).** Bydd y Panel yn eich anfonebu yn uniongyrchol os oes angen taliad. Efallai y bydd rhai eglwysi neu enwadau yn talu am eu gweithwyr i gwblhau'r gwiriad.

2. **Mae gwiriad DBS gwirfoddol yn rhad ac am ddim.**

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer gwiriad DBS gwirfoddol am ddim, rhaid i'r ymgeisydd beidio â:

- elwa yn ariannol o'r swydd y mae'r cais yn cael ei gyflwyno amdani
- derbyn unrhyw daliad (ac eithrio teithio a threuliau "allan o boced" cymeradwy eraill)
- bod ar leoliad gwaith (work placement)
- bod mewn swydd dan hyfforddiant neu'n ymgymryd â chwrs astudio a fydd yn arwain at rôl/cymhwyster amser llawn
- bod yn ofalwr maeth â thâl neu'n aelod o aelwyd gofal maeth

## Ceisiadau Corff Ymbarél

Mae'r Panel yn gorff ymbarél cofrestredig er mwyn cynnal gwiriadau ar gyfer sefydliadau allanol (h.y. nid y tri enwad a nodwyd uchod).

**Cysylltwch â ni'n uniongyrchol am fwy o wybodaeth am y gwasanaeth hwn.** post@panel.cymru

Byddwn yn ymrwymo i gytundeb ffurfiol gyda'r cleient a chodir ffi gofrestru o £50 cyn i'r Panel brosesu unrhyw ddatgeliadau ar ran y cleient. Mae hyn yn daladwy ar ôl dychwelyd y cytundeb wedi'i lofnodi.

**Bydd yna ffi weinyddol ar gyfer pob gwiriad sy'n defnyddio ein gwasanaeth corff ymbarél**

| | |
|---|---|
| Ffi weinyddu fesul cais (gwirfoddolwr a gweithiwr cyflogedig) | £20.00 |
| Datgeliad manwl i Weithwyr (ffi DBS) | £49.50 |
| Datgeliad manwl i Wirfoddolwyr (dim ffi DBS) | £0.00 |
| Cost i weinyddu cais drwy'r Gwasanaeth Diweddaru | £ 5.00 |

## Gwiriad DBS Ar-lein

Mae'r Panel yn defnyddio trydydd parti (thirtyone eight) i brosesu gwiriadau DBS ar-lein. Ni fydd ymgeiswyr sy'n perthyn i'r tri enwad angen talu'r ffi weinyddol. Bydd hyn yn cael ei dalu gan y Panel.

**Gwiriad ID digidol.** Os byddwch yn dewis gwirio'ch ID yn ddigidol fel rhan o wiriad ar-lein thirtyone eight, codir ffi o £5.50 arnoch am y gwasanaeth hwn a bydd y Panel yn eich anfonebu.

*(Bydd y costau uchod yn ddarostyngedig i unrhyw newidiadau a wneir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).*

**1 Vale Parc, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy Industrial Estate, Dinbych/ Denbigh, L16 5TA**
☎ 01745 817584 post@panel.cymru https://panel.cymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant/Company Limited by Guarantee - 6885389